Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9:

ADRODDIAD I'W DROSGLWYDDO: 2003 i 2007

RHAGARWEINIAD

Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn un o saith o bwyllgorau pwnc y Cynulliad. Gwneir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ynglŷn â'u cynnydd i gyflawni eu rhaglen waith. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei wneud ar wahân i adroddiad blynyddol y pwyllgor ar gyfer 2006-07, ac mae dwy ran iddo. Yn gyntaf, mae'n rhoi trosolwg ar flaenoriaethau strategol a gwaith y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (y Pwyllgor) yn ystod yr 2il Gynulliad. Mae ail ran yr adroddiad yn un i'w drosglwyddo i Bwyllgor(au) sy'n olynu perthnasol y 3ydd Cynulliad, yn nodi materion allweddol y gall y Pwyllgorau hynny ddymuno eu hystyried.

Gellir gweld copïau o holl adroddiadau, agendau, papurau, cofnodion a thrawsgrifiadau cyfarfodydd y Pwyllgor ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

1. TROSOLWG STRATEGOL

Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

1.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys llywodraeth leol a datblygu dull strategol tuag at gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw'n ymdrin â chyfrifoldebau'r Gweinidog mewn perthynas â chyllid y Cynulliad neu faterion polisi neu ariannol sy'n perthyn yn gyfan gwbl i bortffolio arall.

Gwaith a Chyflawniadau

1.2 Cyfarfu'r Pwyllgor 52 o weithiau yn ystod yr ail Gynulliad. Cyfarfu'r Pwyllgor ar y cyd gyda'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i ystyried gwerthusiad dros dro'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a chyda'r Pwyllgor Materion Cymreig i graffu ar Fesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru). Cynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol yn Adeilad y Cynulliad ym Mae Caerdydd, ac eithrio cyfarfod ar 6 Gorffennaf, 2006 a gynhaliwyd yng nghanolfan ymwelwyr y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Colwyn. Aeth aelodau'r Pwyllgor hefyd ar nifer o ymweliadau yng Nghymru ac i wledydd Ewropeaidd eraill i gasglu tystiolaeth ar gyfer ei adolygiadau polisi. Ym mis Mehefin 2006 cyfarfu'r Aelodau â Syr Michael Lyons yn Llundain i drafod ei ymchwiliad i Lywodraeth Leol.

1.3 Prif flaenoriaethau strategol y Pwyllgor yn ystod yr 2il Gynulliad fu:

- Gweithredu trefniadau craffu newydd mewn llywodraeth leol
- Swyddogaeth cynghorau tref a chymuned
- Annog mwy o ymgeiswyr i sefyll mewn etholiadau lleol
- Trefniadau etholiadol yng Nghymru
- Gweithredu'r drefn rheoleiddio ac arolygu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus
- Helpu i ddiwygio agenda'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru o ganlyniad i argymhellion yn *Creu'r Cysylltiadau*.

1.4 Amlinellir prif gyflawniadau'r Pwyllgor yn ystod yr 2[il] Gynulliad isod.

Craffu ar Ddeddfwriaeth

1.5 Craffodd y Pwyllgor ar ac adroddodd ynglŷn â'r ddeddfwriaeth sylfaenol ganlynol:

Y Mesur Llywodraeth Leol 2003 (Mehefin 2003) – bu'r Pwyllgor hefyd yn craffu'n fanwl ar is-ddeddfwriaeth yn deillio o'r Ddeddf.

Y Mesur Paratoadau Sifil (Rhagfyr 2003) – craffodd y Pwyllgor hefyd ar y rheoliadau drafft a'r canllawiau yn deillio o'r Ddeddf Paratoadau Sifil 2004 ac ymatebodd i Swyddfa'r Cabinet.

Mesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (Rhagfyr 2004) – cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau craffu ar y cyd gyda Phwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin. Gwahoddodd y Pwyllgorau dystiolaeth ysgrifenedig a llafar oddi wrth ystod eang o gyrff a mudiadau sy'n cael eu heffeithio gan y ddeddfwriaeth a rhoddwyd adroddiadau ar wahân.

Y Mesur Gweinyddu Etholiadol (Hydref 2005) – argymhellodd y Pwyllgor gyfres o ddiwygiadau i'r Mesur a chyfarfu'n anffurfiol gydag Arglwyddi i'w trafod. Ar 11 Ionawr 2006, cafodd cynnig yn y cyfarfod llawn o dan Reol Sefydlog 33.9 ei gymeradwyo, yn gofyn i'r Prif Weinidog ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru gyflwyno gwelliannau'r Pwyllgor. Ystyriodd y Pwyllgor ymateb yr Arglwydd Ganghellor ar 21 Mehefin 2006.

Y Mesur Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd (Chwefror 2007) – craffodd y Pwyllgor hefyd ar y Mesur gyda'r bwriad o adrodd ym mis Mawrth 2007. Gweler hefyd ran 2 yr adroddiad hwn – materion strategol.

Craffu ar Is-ddeddfwriaeth

1.6 Cytunwyd ar brotocol i drin is-ddeddfwriaeth ym Mehefin 2003. Derbyniodd y Pwyllgor amserlen fanwl o ddeddfwriaeth y dyfodol o fewn portffolio'r Gweinidog, gan gynnwys eitemau trawsbynciol, mewn cyfarfodydd eraill. Cynhwysir manylion am yr offerynnau statudol y craffwyd arnynt gan y Pwyllgor yn adroddiadau blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2003-2007.

Deddfwriaeth Ewropeaidd

1.7 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried eitemau yn Rhaglen Ddeddfwriaethol a Gwaith y Comisiwn Ewropeaidd sy'n berthnasol i'w gylch gwaith. Mae ystyriaeth fanwl o argymhellion Ewropeaidd wedi cynnwys ymateb i ymgynghoriadau ynglŷn â Chyfarwyddebau a Phapurau Gwyrdd perthnasol.

Adolygiadau Polisi

Gweithredu Strwythurau Rheoli Gwleidyddol Newydd mewn Llywodraeth Leol

1.8 Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Mehefin 2004 ac ystyriodd ymateb y Llywodraeth ym mis Medi 2004. Ystyriwyd diweddariad oddi wrth y Gweinidog ynghylch ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r adroddiad ar 15 Chwefror 2007. O ganlyniad i un o argymhellion yr adroddiad, cymeradwyodd y Cynulliad y *Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004* ym mis Tachwedd 2004.

Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

1.9 Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Mai 2005. Yn ystod yr ymchwiliad cyflawnodd y Pwyllgor nifer o ymweliadau rapporteur a chyfarfu â Phwyllgor Llywodraeth Leol a Thrafnidiaeth Senedd yr Alban, swyddogion Gweithrediaeth yr Alban a swyddogion o Gonfensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban i drafod trefniadau rheoleiddio ac arolygu yno. Ystyriwyd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Medi 2005, ac ystyriwyd diweddariad pellach oddi wrth y Gweinidog ar 15 Chwefror 2007.

Prosiect Craffu ar Drefniadau Etholiadol yng Nghymru

1.10 Cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl ym Mawrth 2005 ac ar ôl cymryd tystiolaeth a mynd ar ymweliadau i Sweden, yr Iseldiroedd, Gwlad Belg a Denmarc, cyhoeddwyd adroddiad interim ym mis Tachwedd 2005. Lansiwyd adroddiad terfynol ym mis Rhagfyr 2006, ac fe'i trafodwyd mewn cyfarfod llawn ar 6 Mawrth 2007, gydag ymateb ysgrifenedig y Cabinet yn cael ei ystyried yn y Pwyllgor ar 22 Mawrth, 2007.

Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus – Creu'r Cysylltiadau

1.11 Un o'r datblygiadau allweddol yn y portffolio Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yw agenda *'Gwneud y Cysylltiadau'* Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n anelu at drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae cyhoeddi adroddiad Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir yn Lleol Syr Jeremy Beecham – Ar Draws Ffiniau – wedi bod yn garreg filltir. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi monitro gwaith y swyddogaethau cyflawni polisi cysylltiedig: rhaglen pobl *Rheoli yng Ngwasanaethau Cyhoeddus Cymru*, braich gaffael *Gwerth Cymru* a'r *Gwasanaeth i'r Dinesydd / Y Tîm Mynediad* sy'n datblygu gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

Ymchwiliad Lyons

1.12 Dechreuodd Ymchwiliad Lyons i Lywodraeth Leol ym mis Gorffennaf 2004 a chyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith gyda Syr Michael Lyons, gyda'r cyfarfod diweddaraf ym Mehefin 2006 wedi i gylch gwaith yr ymchwiliad gwreiddiol gael ei ymestyn. Rhoddodd y Pwyllgor gyflwyniad ynglŷn ag effaith ailbrisio'r dreth gyngor yng Nghymru ym Mawrth 2006.

Craffu ar y gyllideb

1.13 Cyflawnodd y Pwyllgor ei ofynion i gyfrannu at broses y gyllideb bob blwyddyn drwy nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwariant o fewn prif grŵp gwariant llywodraeth leol. Yn ystod Cylch Cynllunio Cyllideb Ddrafft 2006-07, ar gais Cadeirydd y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ystyriodd y Pwyllgor argymhellion perthnasol y Pwyllgor ar Gyllido Ysgolion.

Penodiadau cyhoeddus

1.14 Roedd enwebeion[1] penodiadau cyhoeddus y Pwyllgor yn ymwneud â phenodi'r Dyfarnwr Annibynnol ac i Banel Annibynnol Cymu ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn 2003-04.

Cwynion

1.15 Ym mis Hydref 2004 ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yr Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 23, ac argymhellodd welliant i ymateb arfaethedig y Prif Weinidog i'r adroddiad.

Craffu ar gyrff perthnasol

1.16 Ystyriodd y Pwyllgor waith Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Uned Cydraddoldebau Llywodraeth Leol, Uned Data Llywodraeth Leol, Syniad, y Comisiwn Etholiadol a'r Comisiwn Archwilio.

Materion trawsbynciol

Cydraddoldeb

1.17 Fel rhan o'r broses o ymgynghori i fod yn sylfaen i adolygiadau polisi a phrosiect craffu'r pwyllgor, gwahoddwyd cyflwyniadau ysgrifenedig oddi wrth nifer o grwpiau yn cynrychioli buddiannau lleiafrifol. Canolbwyntiodd y prosiect craffu ar drefniadau etholiadol yng Nghymru yn benodol ar anghenion pleidleiswyr anabl, pobl ifanc, pobl o leiafrifoedd ethnig a siaradwyr Cymraeg.

1.18 Ystyriodd y Pwyllgor ac ymatebodd i'r canlynol:

- Adolygiad y Comisiwn Etholiadol ynglŷn â'r oed pleidleisio isaf a bod yn ymgeisydd yn etholiadau'r DU
- Adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2003-4

[1] Ann Jones a Glyn Davies

- Adolygiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ynglŷn â phrif ffrydio cydraddoldeb yn y Cynulliad
- Comisiwn annibynnol i adolygu'r Sector Gwirfoddol

1.19 Ym mis Mawrth 2006 neilltuwyd cyfarfod cyfan i drafod materion cydraddoldeb. Mynychodd y Gwahoddedigion Sefydlog i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal i ystyried ymatebion awdurdodau lleol i ddeddfwriaeth ddiweddar yn ymwneud â chydraddoldeb. Ystyriwyd diweddariad ynghylch sut yr oedd yr awdurdodau hynny yn gweithredu eu cynlluniau cydraddoldeb ym mis Mawrth 2007.

Datblygiad cynaliadwy

1.20 Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ym mis Ebrill 2004 gyda barn ynghylch cynllun gweithredu drafft y Cynllun Datblygiad Cynaliadwy. Mae'r Gweinidog hefyd wedi rhoi diweddariadau rheolaidd ynglŷn â datblygiad Cynllun Gofodol Cymru, yn fwyaf diweddar ym Mawrth 2007.

2. MATERION I'W TROSGLWYDDO I BWYLLGOR(AU) SY'N OLYNU

Materion Strategol

2.1 Argymhellir y dylai Pwyllgor(au) sy'n olynu ganolbwyntio ar y materion strategol pwysig canlynol.

Strwythur a swyddogaethau Llywodraeth Leol

Agenda Beecham – Cyflawni ar draws Ffiniau

2.2 Cyhoeddodd Cynulliad Llywodraeth Cymru ei gynllun gweithredu 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni ar draws Ffiniau' ym mis Tachwedd 2006, a thrafododd y Pwyllgor gynlluniau i gyflwyno Byrddau Gwasanaethau Lleol fel cynlluniau peilot yn 2007-08 gyda'r Gweinidog ym mis Rhagfyr. Edrychir ymlaen yn eiddgar at ddatblygu cynlluniau a gyflwynwyd yn y ddogfen ymhellach.

2.3 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi bod yn gwneud adolygiad drwy Swyddfa Archwilio Cymru sy'n ymdrin â gwasanaethau cyhoeddus Cymru i gyd. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar weld faint o gynnydd a wnaed i ateb heriau *'Creu'r Cysylltiadau'*, nodi rhwystrau ac atebion a rhannu'r darganfyddiadau. Mae elfennau o'r gwaith hwn wedi adlewyrchu argymhellion adroddiad Pwyllgor 2005 i Reoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, a oedd yn golygu defnyddio technegau hunanasesu a chanolbwyntio ar nodi a dosbarthu arfer da i gefnogi'r gwelliannau oedd yn angenrheidiol.

2.4 Efallai y bydd aelodau'r 3^{ydd} Cynulliad yn dymuno rhoi ystyriaeth i gynnydd adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru ynghyd â meysydd eraill gan gynnwys datblygiadau o ran mesur perfformiad, meincnodi, rheoleiddio ac

arolygu, cyfranogiad y dinesydd, llywodraethu a swyddogaethau craffu, a gallu rheolwyr yn y gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni.

2.5 Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell yn benodol y dylai unrhyw Bwyllgor sy'n ei olynu fod yn ymwneud ag unrhyw ymgynghoriad posibl yn y dyfodol ynglŷn â dadreoleiddio gwasanaethau a reoleiddir gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.

2.6 Mae'r Gweinidog wedi nodi'r cyfleoedd a gynigir gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gael pwerau deddfwriaethol newydd i symud ymlaen gyda'r diwygiadau i'r gwasanaeth cyhoeddus a amlinellwyd yn *'Ar Draws Ffiniau'*. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yn ofalus beth yw goblygiadau *Mesur Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd* Llywodraeth y DU i Gymru, sy'n darparu ar gyfer rhoi gallu deddfwriaethol newydd i'r Cynulliad. Bydd gosod rhai Materion yn Rhan 1 o Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 o dan Faes 12 (Llywodraeth Leol), yn galluogi'r Cynulliad i fabwysiadu Mesurau'r Cynulliad ynghylch y Materion hynny. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi cyhoeddi *Datganiad Polisi Llywodraeth Leol* ym mis Mawrth 2007. Bydd goblygiadau'r datganiad ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru, ac ystyried unrhyw Fesurau Cynulliad yn y dyfodol yn hyn o beth yn fater i graffu arno gan y 3ydd Cynulliad.

Rôl a swyddogaethau Aelodau etholedig

2.7 Cafodd ymchwil i rôl a swyddogaethau Aelodau etholedig yng Nghymru hefyd ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru cyn etholiadau'r Cynulliad. Codwyd swyddogaeth cynghorwyr hefyd yn adroddiad interim Ymchwiliad Lyons. Bydd canlyniad yr ymchwil yn fater i'w ystyried yn y 3ydd Cynulliad. Yn arbennig, mae lle ar gyfer darn cadarn o waith i adolygu rôl craffu mewn llywodraeth leol.

Craffu ar Ddata Mesur Perfformiad

2.8 Ystyriwyd data perfformiad llywodraeth leol Cymru gyfan ar gyfer 2005/06 yn y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2006, ac ystyriwyd canlyniad ymgynghori ynglŷn â newidiadau i'r Fframwaith Mesur Perfformiad ym mis Mawrth 2007. Sefydlwyd Tîm Perfformiad Cymru hefyd fel rhan o gynllun gweithredu Cyflawni'r Cysylltiadau.

Swyddogaeth Cynghorau Tref a Chymuned

2.9 Efallai y bydd Pwyllgor yn y dyfodol yn dymuno ystyried swyddogaeth cynghorau tref a chymuned yn y dyfodol yng ngoleuni argymhellion adroddiad Aberystwyth 2003, darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd, Datganiad Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ac adroddiad terfynol Ymchwiliad Lyons. Efallai y bydd yn dymuno cymryd tystiolaeth oddi wrth Un Llais Cymru ar y mater hwn.

Canllawiau Cynllunio Cymunedol Diwygiedig

2.10 Mae'r Gweinidog i fod i ddiweddaru'r Pwyllgor ynglŷn â diwygio'r Canllawiau Cynllunio Cymunedol ym mis Mawrth 2007 ond ni fydd y canllawiau yn cael eu diwygio cyn etholiadau'r Cynulliad.

Cyllid Llywodraeth Leol

Ymchwiliad Lyons

2.11 Cyhoeddwyd adroddiad terfynol Syr Michael Lyons i gyllid a swyddogaethau llywodraeth leol yn Lloegr tua'r un adeg ag araith y Canghellor ar y Gyllideb ar 21 Mawrth 2007. Yn ei gyfarfod terfynol ar 22 Mawrth bu'r Pwyllgor yn ystyried goblygiadau'r adroddiad ar gyfer llywodraeth leol Cymru. Nodwyd yr argymhellion ynghylch ad-daliadau treth gyngor, trethi busnes atodol, newidiadau yn LABGI a threth dwristiaeth, ond cafwyd siom nad oedd yr adroddiad yn cyfeirio mwy at ddatganoli cyllid llywodraeth leol yng Nghymru.

Hyrwyddo ymgysylltu â democratiaeth leol

2.14 Cwblhaodd y Pwyllgor ei adroddiad ar Drefniadau Etholiadol yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2006 i roi amser i gael ymateb gan y Cabinet cyn yr etholiadau. Derbyniwyd rhywfaint o dystiolaeth hwyr oddi wrth Estyn a Ffederasiwn Dadlau Cymru ynglŷn â chyflwyno addysg dinasyddiaeth o fewn ysgolion Cymru. Byddai'r Pwyllgor wedi croesawu ymchwilio i'r mater hwn ymhellach gydag undebau llafur yr athrawon, gwasanaeth addysg Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a mudiadau ieuenctid fel y Ddraig Ffynci.

2.15 Bydd Etholiadau'r Cynulliad yn 2007 hefyd yn profi'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006, gan gynnwys y gallu i gofrestru hyd at 11 diwrnod cyn pleidleisio a dilysu dynodwyr personol ar gyfer pleidleisiau post. Mae Atodlen 2 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi pwerau hefyd i Gomisiwn y Cynulliad hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o etholiadau'r Cynulliad ac mae'r Pwyllgor wedi argymell y dylid gwneud defnydd llawn o'r pwerau hynny. Bydd craffu ar effaith y Ddeddf, a gweithredu argymhellion y Pwyllgor ynghylch trefniadau etholiadol, yn amserol yn y cyfnod yn union cyn etholiadau llywodraeth leol yn 2008. Wrth fonitro sut y mae argymhellion y Pwyllgor yn cael eu gweithredu, dylid canolbwyntio ar yr ymateb i addysg (argymhellion 21 – 28, 27 yn arbennig). Cydnabyddir nad oes gan y Grwp Cynllunio Etholiadau unrhyw bwerau statudol ond ei bod yn bwysig cael cyfrwng ar gyfer gweithredu argymhellion y Pwyllgor.

Materion trawsbynciol

Yr Iaith Gymraeg

2.16 Dylai'r cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol i weithredu eu cynlluniau iaith Gymraeg a darparu gwasanaethau yn y Gymraeg gael ei fonitro yn y 3ydd Cynulliad.

Cymunedau yn Gyntaf

2.17 Ar ôl cyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (CCA) i ystyried y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gofynnodd y Pwyllgor am farn awdurdodau lleol ynglŷn â chyflwyno Cymunedau yn Gyntaf yn eu hardaloedd. Dosbarthwyd ymatebion i'r Aelodau a Chadeirydd y Pwyllgor CCA a gellid craffu ar hyn ymhellach.

Materion Plant

2.18 Derbyniodd y Pwyllgor bapur i'w nodi ar y mewnbwn Cymreig i adolygiad Llywodraeth y DU i weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mis Mawrth 2007. Mae hefyd wedi ystyried pecyn o reoliadau yn ddiweddar – 'Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Llewyrchus' – sydd wedi ei anelu at wella trefniadau i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Bydd parhau i graffu ar rôl rhianta corfforaethol awdurdodau lleol yn hanfodol yn y 3ydd Cynulliad. Mae'r Pwyllgor yn nodi pwysigrwydd cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu'r Byrddau Gwasanaethau Lleol arfaethedig, prosesau craffu llywodraeth leol a datblygu Gwasanaethau Plant, er enghraifft wrth recriwtio Penaethiaid Gwasanaethau Plant. Dylai canllawiau yn y meysydd hyn fod yn ddarostyngedig i graffu.

Cydraddoldeb

2.19 Ystyriodd y Pwyllgor ddata perfformiad diweddaraf llywodraeth leol ym mis Tachwedd 2006 a mynegodd bryder am wahaniaethau mewn amserau aros ar gyfer y grant cyfleusterau i'r anabl rhwng ardaloedd awdurdodau lleol. Adroddodd CLILC (WLGA) ei bod yn bwriadu cyhoeddi astudiaeth meincnodi a noddwyd gan y Cynulliad ynglŷn ag addasiadau yn 2007 a bod cyfle i gyflymu'r broses gaffael.

2.20 Mae canlyniadau profi cwestiynau peilot ar gyfer Cyfrifiad 2011 yn Sir Gaerfyrddin i fod i gael eu cyhoeddi tua diwedd 2007 – dechrau 2008 ac mae cyfle i Aelodau barhau i fwydo i'r broses ddatblygu. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau y bydd y Cyfrifiad yn cael data cywir oddi wrth holl drigolion Cymru, gan gynnwys gweithwyr mudol, Sipsiwn a Theithwyr, fel sylfaen i gyllido drwy fformiwla ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

2.21 Mae'n ofynnol cael adroddiad cydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru o dan adran 77 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Pan ystyriodd y Pwyllgor adrannau perthnasol o'r adroddiad ddiwethaf cytunwyd y dylai ystyriaeth yn y dyfodol gynnwys adroddiad ar wahân oddi wrth Uned Cydraddoldebau CLILC (WLGA), er enghraifft i gynnwys gwybodaeth am amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus.

Datblygiad cynaliadwy

2.22 Dylai datblygu Cynllun Gofodol Cymru yn y dyfodol gynnwys materion yn ymwneud â chynllunio morol. Mae'r Pwyllgor wedi ceisio cael cyfle i graffu ar y cyd ar Fesur Morol Llywodraeth y DU a fydd yn ymddangos yn y dyfodol, gyda'r Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Un o gydrannau allweddol y Mesur arfaethedig yw system bosibl o gynllunio gofodol morol. Cyhoeddwyd Papur Gwyn ar y Mesur Morol ar 15 Mawrth 2007 gyda 8 Mehefin fel dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad.

Swyddogaeth yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

2.23 Adroddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor ynghylch ei chwe mis cyntaf yn y swydd ym mis Medi 2006. Efallai y bydd un o Bwyllgorau perthnasol y 3ydd Cynulliad yn dymuno rhoi ystyriaeth bellach i gynnydd ymchwiliadau'r Ombwdsmon a phroffil cyhoeddus y Swydd.

Deddfwriaeth

Deddfwriaeth Sylfaenol a Phwerau i Iunio Mesurau

2.24 Tynnir sylw at oblygiadau'r pwerau i'w rhoi ar y Cynulliad drwy'r Mesur Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd o dan faterion strategol uchod. Gorffennodd Mesur y Llywodraeth ei gam Pwyllgor yn Nhy'r Cyffredin ar 8 Mawrth 2007, heb unrhyw ddyddiad wedi'i gyhoeddi ar gyfer Cam Adrodd. Cytunodd y Pwyllgor a gosododd adroddiad gerbron o'i waith craffu ar y Mesur hyd at 22 Mawrth 2007.

Is-ddeddfwriaeth

2.25 Nodwyd nifer o eitemau o ddeddfwriaeth ddrafft i graffu arnynt gan y Pwyllgor ond na ddygwyd ymlaen i'w hystyried cyn Mawrth 2007. Rhestrir y rhain yn y tabl isod. Mae rhai yn ymwneud yn uniongyrchol â pholisi neu gyllid llywodraeth leol, mae rhai eraill yn drawsbynciol.

Teitl Gwaith a manylion	Rhychwant ac effaith
Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion a Chod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2006/07 Cyf: LG.084, LAA21 yn flaenorol. Nodwyd ar gyfer craffu: 22 Medi 2004.	Pennu cod ymddygiad diwygiedig ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn dilyn canlyniad yr adolygiad i weithrediad y cod presennol. Mae'n cyflwyno cod newydd sy'n berthnasol i aelodau cynghorau sir/bwrdeistrefi sirol a chymuned, awurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol.
Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cyfundrefn Cyfyngiadau Gwleidyddol) (Cymru) 2005 Cyf: LG065, LAA30 yn flaenorol. Nodwyd ar gyfer craffu: 1 Rhagfyr 2004	Adolygu'r cyfyngiadau ar weithgaredd gwleidyddol gweithwyr llywodraeth leol. Diwygio rheoliadau ynghylch rhychwant y staff yr effeithir arnynt; maint y cyfyngiadau; rôl y dyfarnwr annibynnol; tâl cynorthwywyr gwleidyddol.
Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Diwygio) (Cymru) 2007 Cyf: LG.100. Nodwyd ar gyfer craffu: 21 Medi 2006	Diweddaru rheoliadau presennol i adlewyrchu newidiadau a gyflwynwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004. Cynnwys diwygiadau a nodwyd yn ddiweddarach gan y Pwyllgor Deddfwriaeth a gwneud gwelliannau gweinyddol sy'n debyg i'r rhai hynny sydd wedi eu gwneud eisoes gan y rheoliadau cymharol ar gyfer Lloegr.
Gorchymyn drafft Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) Cyf: i'w ddarparu. Nodwyd ar gyfer craffu: 30 Mawrth 2006	Sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru a fydd yn gweithredu fel corff gwarchod buddiannau i sicrhau bod llais teithwyr yn cael ei glywed. Bydd yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr pob math o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru, sef fferïau, tacsis a gwasanaethau awyr yn ogystal â bysiau a threnau. Mae'n bosibl iddo felly helpu i hyrwyddo a datblygu polisïau cludiant integredig ar draws Cymru.
Rheoliadau Taliadau Atal Tagfeydd Cyf: i'w ddarparu. Nodwyd ar gyfer craffu: 17 Mai 2006	Galluogi Awdurdodau Lleol i gyflwyno dwy ffurf ar godi tâl: codi taliadau atal tagfeydd ac ardollau parcio ar gyfer y gweithle. Bydd yn galluogi Awdurdod Lleol i gyflwyno cynllun taliadau atal tagfeydd o fewn ei ardal, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad.

Argymhellion Deddfwriaethol Ewropeaidd

2.26 Ar 18 Ionawr 2007 ystyriodd y Pwyllgor faterion polisi a deddfwriaethol yr Undeb Ewropeaidd yn 2007 a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor. Nodwyd yr argymhelliad canlynol fel blaenoriaeth i graffu arno yn y 3ydd Cynulliad: **Dogfen Gyfathrebu'r Comisiwn ynglŷn â gweithredu strategaethau cenedlaethol ar gyfer caffaeliad cyhoeddus Gwyrdd yn seiliedig ar osod targedau ar draws yr UE a monitro a meincnodi rheolaidd.** Disgwylir y bydd y ddogfen yn cael ei mabwysiadu yn ystod hydref 2007.

Anela'r argymhelliad at:

- argyhoeddi Aelod Wladwriaethau o'r angen i ymdrin â strategaethau Cenedlaethol ar gyfer caffaeliad cyhoeddus gwyrdd, wedi eu cydlynu a'u dilysu gan y Comisiwn;
- nodi ffyrdd o gyflawni'r targed ar draws yr UE o ran caffaeliad cyhoeddus Gwyrdd sydd wedi ei osod gan arweinwyr yr UE yn y Strategaeth Datblygiad Cynaliadwy sydd wedi ei hadnewyddu;
- cysylltu caffaeliad cyhoeddus Gwyrdd â pholisïau eraill a dangos pa mor ddefnyddiol y mae i gyrraedd amcanion amgylcheddol ac economaidd allweddol (newid hinsawdd drwy ddefnyddio ynni yn effeithiol mewn adeiladau cyhoeddus a thrafnidiaeth er enghraifft neu ddatblygu eco-dechnolegau a sbardunir gan alw).

Gwasanaeth Ymchwil a Phwyllgor yr Aelodau
Mawrth 2007